Cyngor Bro Morgannwg

# Telerau ac Amodau
# Deunyddiau Adeiladu ar y Briffordd Gyhoeddus

Fersiwn 1 – Ebrill 2026

Mae angen caniatâd arnoch i adael deunyddiau adeiladu ar y briffordd gyhoeddus. I gael caniatâd, llenwch y ffurflen gais gan roi manylion am y deunyddiau, hyd a lleoliad. Byddwn yn asesu'r effaith ac yn rhoi caniatâd a neu ganllawiau fel ein bod yn sicrhau diogelwch a chyn lleied o darfu â phosibl.

Darllenwch yr isod yn ofalus cyn gwneud cais.

**Telerau ac Amodau**

1. Rhaid i'r holl ddeunyddiau fod yn newydd ac yn lân at ddibenion y datblygiad ac nid yn gwastraff, ac felly wedi'u lleoli i beidio â rhwystro safleoedd eraill yn yr ardal leol, peidio â rhwystro'r draeniad dŵr wyneb na rhwystro mynediad i hydrantau tân, gylïau draenio priffyrdd, tyllau a chyfarpar unrhyw gyfleustod cyhoeddus. Ni ddylid eu gosod mewn lleoliad a fyddai'n mynd yn groes i unrhyw Orchymyn Rheoli Traffig.

2. Bydd yr holl ddeunyddiau'n cael eu gosod a'u storio mewn modd diogel nad yw'n achosi perygl neu niwsans i ddefnyddwyr eraill y briffordd. Bydd y deunyddiau yn cael eu lleoli mewn modd sy'n sicrhau eu bod i'w gweld yn glir gan draffig sy'n agosáu o unrhyw gyfeiriad ar bellter o ddim llai na 75m ac ni fyddant yn cael eu lleoli o fewn 10m i gyffordd. Bydd y deunyddiau yn cael eu lleoli mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn osgoi unrhyw rwystr ac ymyrraeth ormodol â defnyddwyr y briffordd a bydd o leiaf 1.2m o droedffordd glir i gerddwyr yn cael ei gynnal bob amser. Os na ellir cynnal o leiaf hynny o faint cerdded clir ar y droedffordd, rhaid ffensio cyfran o'r lôn gerbydau i amddiffyn cerddwyr. Rhaid darparu cyfleusterau diogelu addas a'u cynnal yn unol â'r **Llawlyfr Arwyddion Traffig: Pennod 8 a Diogelwch a Gwaith Ffordd (Llyfr Coch)** drwy gydol cyfnod y drwydded.

3. Yn ystod oriau tywyllwch (rhwng hanner awr ar ôl machlud a hanner awr cyn codi'r haul) bydd y deunyddiau'n cael eu goleuo gan lampau perygl ffordd oren. Darperir goleuadau o'r fath i ddiffinio maint unrhyw rwystr i'r briffordd gyhoeddus. Bydd y gofynion goleuo yn wahanol i bob cais a gall fod angen cynigion yr ymgeisydd ar gyfer y cyfryw oleuadau gan yr Awdurdod Priffyrdd cyn rhoi trwydded. Fel gofyniad safonol, bydd lampau yn cael eu gosod ar gorneli pellaf y deunydd. Rhaid i unrhyw lampau a ddefnyddir fod yn sefydlog ac wedi'u lleoli yn y fath fodd fel nad ydynt yn achosi niwsans i gerddwyr neu draffig cerbydol.

4. Bydd arwyddion ar yr holl ddeunyddiau a byddant yn cael eu diogelu bob amser, yn unol â'r gofynion a ddisgrifir yn 'Safety at Street Works and Road Works: A Code of Practice'. Efallai y bydd angen i'r Awdurdod Priffyrdd weld cynigion arwyddion a diogelu cyn cymeradwyo cais am drwydded.

5. Ac eithrio lle cytunwyd fel rhan o'r drwydded hon, ni chaiff unrhyw ran o'r briffordd ei chau, heb ganiatâd yr Awdurdod Priffyrdd.

6. Ni fydd unrhyw ddeunyddiau a osodir ar y briffordd yn cynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy, ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus, nac unrhyw ddeunydd sy'n debygol o achosi neu fel arall ddod yn niwsans neu'n berygl i ddefnyddwyr y briffordd a’r cyhoedd.

7. Bydd cais i storio deunydd adeiladu ar briffordd yn para un mis calendr. Nid yw'r Cyngor fel arfer yn caniatáu estyniadau i drwyddedau deunyddiau adeiladu. Byddwn ond yn ystyried caniatáu estyniad i drwydded bresennol o dan amgylchiadau esgusodol fel tywydd eithafol ac anawsterau peirianneg. Rhaid gwneud unrhyw gais am estyniad i'r cyfnod y rhoddwyd y drwydded ar ei gyfer i'r Awdurdod Priffyrdd o leiaf dri diwrnod gwaith (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc) cyn i'r drwydded ddod i ben.

8. Bydd deiliad y drwydded yn darparu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5 miliwn fel isafswm am gyfnod y drwydded.

9. Ar ôl i'r drwydded ddod i ben, bydd y briffordd gyhoeddus lle gadawyd y deunyddiau yn cael ei gadael mewn cyflwr glân a thaclus a bydd unrhyw ddifrod i'r briffordd gyhoeddus yn cael ei atgyweirio gan yr Awdurdod Priffyrdd ar draul deiliad y drwydded.

10. Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn cadw'r hawl i gynnal arolygiadau ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau a bennir. Os oes rhaid i ni gysylltu â'r perchennog ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth ag amodau’r drwydded, gallai arwain at gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig a gallai arwain at wrthod ceisiadau yn y dyfodol.

11. Gall yr Awdurdod Priffyrdd fod angen i'r deunyddiau gael eu symud cyn i’r drwydded ddod i ben mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fo angen i ymgymerwyr statudol weithio ar eu hased claddedig ar frys.

12. Nid yw rhoi'r drwydded hon yn caniatáu cymysgu unrhyw forter, concrit na sment ar y Briffordd

**Sylwch:**

Os bydd unrhyw ddifrod i’r briffordd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn adennill yr holl gostau am atgyweiriadau gan Ddeiliad y Drwydded.

- Os na fyddwch yn cydymffurfio â’r Telerau ac Amodau hyn a’r holl ddeddfwriaeth berthnasol, efallai y byddwch yn agored i gamau gorfodi a

allai gynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig, a neu waredu nwyddau. Rhan IX o Ddeddf Priffyrdd 1980 – Rhwystro Priffordd.

- Is-adran 137A Pŵer i orchymyn i'r troseddwr symud y rhwystr
- Is-adran 171 meddiannu priffordd ac ati (Cyflawni Trosedd o dan yr is-adran hon) Cosb Benodedig o **£150.00**.
- Adran 149 Symud pethau sy'n cael eu gadael ar Briffyrdd ac sy'n peri niwsans ac ati. (Pŵer i'w symud ac adennill costau).
- Efallai y bydd achosion lle mae disgresiwn ac amgylchiadau yn pennu y gallai'r telerau ac amodau uchod amrywio ychydig, fodd bynnag, caiff hyn ei esbonio'n fanwl gan swyddog o'r swyddogaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd gyda phenderfyniad swyddogion y Cyngor yn derfynol.

**Indemniad Cyfreithiol**

- Bydd deiliad y Drwydded yn indemnio Cyngor Bro Morgannwg a/neu ei weision a'i asiantau a'u hindemnio'n barhaol rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, gweithredoedd, costau a difrodau sy'n deillio o ganlyniad i osod y cynhwysydd ar y lôn gerbydau, ar droedffordd neu ar lain laswellt.
- Bydd cyfnod yr indemniad yn parhau o gychwyn y cyfnod y gadewir y deunyddiau tan iddynt gael eu symud i ffwrdd yn derfynol.
- Rhaid i'r trwyddedai fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £5,000,000 ar waith ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr ag enw da. Yn ôl yr angen, bydd y Trwyddedai'n rhoi'r polisi neu'r polisïau yswiriant i'r Awdurdod ynghyd â derbynebau ar gyfer talu am y polisi cyfredol.